| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **13, MAI, 2010** |
| **PWNC** | **CYNLLUN LWFANSAU AELODAU** |
| **PWRPAS** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN SYDD YN YR ATODIAD.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD J. R. JONES, UWCH ARWEINYDD ADNODDAU.** |

1. Cyhoeddwyd adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Lwfansau Aelodau ym mis Chwefror 2010. Ynddo mae'r Panel yn argymell lwfansau i aelodau ar gyfer 2010/ll.

2. O ganlyniad i adroddiad y Panel mae'n rhaid i'r Cyngor ddiwygio ei gynllun lwfansau. Cafwyd trafodaeth a chraffu ar y lwfansau arfaethedig yn y Prif Bwyllgor Craffu ar 23, Ebrill, 2010. Mae'r pwyllgor yn argymell fod y Cyngor yn mabwysiadu'r cynllun sydd yn yr atodiad.

3. Tynnir sylw at y materion canlynol yn y cynllun :-

   3.1 Bydd y lwfansau ar gyfer 2010/11 yn cael eu rhewi ar lefelau 2009/10, heb godiadau chwyddiant. Mae hyn yn dilyn o benderfyniadau y Cyngor wrth osod y gyllideb i beidio rhoi unrhyw arian ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer codi lwfansau.

   3.2 Ni thelir lwfansau i Is-gadeiryddion mwyach (nac ychwaith i Gadeirydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth). Mae hyn yn unol â phenderfyniad y Panel i ddileu'r lwfansau i Is-gadeiryddion a chyfyngu ar nifer y pwyllgorau lle gellir talu lwfans i'r Cadeirydd Ar argymhelliad y Prif Bwyllgor Craffu anfonwyd llythyr at y Panel i fynegi anfodlonrwydd â'r penderfyniad i ddileu lwfansau Is-gadeiryddion.

   3.3 Er fod y Panel wedi rhoi lwfansau cadeiryddion pwyllgorau craffu, cynllunio, trwyddedu ac archwilio yn yr un categori, mae'r cynllun yn parhau i gadw'r gwahaniaeth hanesyddol rhwng lwfansau cadeiryddion y pwyllgorau craffu a chynllunio ardal ar y naill law a'r pwyllgorau archwilio, trwyddedu a chynllunio canolog ar y llaw arall.

   3.4 O ddiddymu lwfansau is-gadeiryddion mae arbediad o £20,448 yn y gyllideb. Argymhelliad y Prif Bwyllgor Craffu yw y dylid ail-gylchu'r arian yma er mwyn cau rhywfaint ar y bwlch yn lwfansau aelodau'r Bwrdd, gan mai yn lwfansau aelodau'r Bwrdd mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng yr hyn a argymhellir gan y Panel a'r hyn a delir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r cynllun yn yr atodiad yn cynnwys yr ychwanegiadau yma wedi eu dyrannu'n gymesur â'r gwahaniaeth yn y lwfans cyfrifoldeb arbennig ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

3.5 Gwnaed mân ddiwygiadau i'r amodau ar gyfer hawlio lwfans Gofal er mwyn ei gwneud yn glir mai hawlio ad-daliad ar gyflwyno derbynneb fydd yn digwydd.

3.6 Mae lwfansau aros dros nos yn Llundain a Chaerdydd wedi cynyddu.

3.7 Mae'r cynllun yn parhau i ddynodi'r taliadau fel "lwfans" er fod y panel yn argymell y dylid newid y geiriad i "gyflog".

4. Nodwyd yn y Prif Bwyllgor Craffu fod cryn fwlch rhwng y lwfansau a delir yng Ngwynedd a'r uchafsymiau a argymhellir gan y Panel. Nodwyd hefyd fod lwfansau aelodau Gwynedd ymysg yr isaf yng Nghymru. Disgwylir y bydd y Panel yn pennu lwfansau yn y dyfodol (o bosib o 2012 ymlaen) yn hytrach na gosod uchafsymiau. Pe bai'r Panel yn gosod y lwfansau yn unol â'r uchafsymiau, byddai'r bwlch ariannol yn sylweddol. Argymhellodd y Prif Bwyllgor Craffu y dylid ystyried hyn wrth osod cyllideb 2011/12.

5. Wrth drafod lwfansau arweinyddion, argymhellodd y Prif Bwyllgor Craffu y dylid ail-edrych ar strwythur a phortffolio aelodau'r Bwrdd yn sgil yr ail-strwythuro o uwch reolaeth y Cyngor.

**ARGYMHELLIAD.**

6. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun lwfansau sydd yn yr atodiad ar gyfer 2010/11.